# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **18 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Mesurau'r Farchnad (Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019")**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

Diwygio deddfwriaeth sy'n gymwys o ran Cymru

- Rheoliadau Ardystio Hopys 1979
- Rheoliadau Safonau Ansawdd ar gyfer Bananas Gwyrdd (Cymru a Lloegr) 2012
- Rheoliadau Olew Olewydd (Safonau Marchnata) 2014

Diwygio deddfwriaeth arall

Mae Rheoliadau 2019 hefyd yn diwygio deddfwriaeth arall. Fodd bynnag, nid yw'r ddeddfwriaeth honno'n gymwys o ran Cymru ac, o'r herwydd, nid yw'n cael ei thrafod yn y datganiad hwn.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r Trefniadau Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli'n bennaf.

Mae darpariaethau yn yr OS hwn sy'n galluogi Gweinidogion Cymru, o ran Cymru, i arfer, yn ddilyffethair, swyddogaethau gweinyddol a roddwyd gynt i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Reoliadau Ardystio Hopys 1979.

**Diben y diwygiadau**

Y Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd (CMO) yw'r fframwaith ar gyfer mesurau'r farchnad a ddarperir ar eu cyfer o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP), gan ddarparu'r fframwaith ar gyfer cynlluniau i gynnal y farchnad a sefydlwyd yn yr amrywiol sectorau amaethyddol. Cafodd y Trefniadau Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd eu sefydlu fel dull o fodloni amcanion y Polisi Amaethyddol Cyffredin ac yn benodol i sefydlogi marchnadoedd, sicrhau safon byw teg i gynhyrchwyr amaethyddol a chynyddu gweithgarwch amaethyddol. Mae dros amser wedi ehangu i gynnig pecyn sy'n galluogi'r UE i:

- reoli anwadalrwydd yn y marchnadoedd;
- cymell cydweithio a chystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr amaethyddol; a
- hwyluso masnach.

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n bodoli eisoes ac sy'n rhan o gyfraith y DU sy'n ymwneud â'r Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd.

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud cywiriadau a fydd yn golygu y bydd y ddeddfwriaeth yn parhau'n weithredadwy. Bwriedir i'r cywiriadau hynny, yn nhermau polisi, gynnal y sefyllfa sydd ohoni cyn belled ag y bo modd ac ni fwriedir iddynt gael effeithiau amlwg ar y sector amaethyddol ar lawr gwlad.

Ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ac o beidio â diwygio’r ddeddfwriaeth uchod gan yr UE, sy'n cael ei dargadw, byddai ynddi ddarpariaethau na fyddai modd eu gweithredu ac a fyddai'n atal cynlluniau i gefnogi'r farchnad o fewn y sector amaethyddol rhag cael eu darparu.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae’r diwygiadau wedi eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE.